## Gwener y Groglith

**Darllen Genesis:22:1–19; Luc 23:26–49; Colosiaid 1:13–23**

### Y Groes: Edifeirwch

Oni all y cyhoeddiad am faddeuant rhad ein drygu ni, ein gwneud yn ddi-hid am bechod? Dyna gyhuddiad gwrthwynebwyr Paul yn erbyn yr efengyl a bregethai. ‘Yr wyt yn dysgu pechaduriaid bod maddeuant iddynt am ddim ond iddynt gredu yn Iesu Grist. Y canlyniad o hyn fydd i bobl deimlo’n dalog na waeth iddynt bechu mwy na pheidio ddim gan fod maddeuant iddynt am ddim. Byddant am drigo’n wastad mewn pechod fel yr amlhao gras.’ Felly y mae pethau’n edrych. Ond y gwir amdani, er hynny, yw mai marwolaeth Iesu Grist dros bechod yw’r grym mwyaf mewn bod i ddwyn dyn i edifeirwch. Y dyn a brofodd faddeuant Duw, a gwybod darfod iddo’i gael trwy farwolaeth Iesu Grist drosto, yw’r dyn yn anad neb fydd yn galaru am ei bechod ac yn ei gasáu.

Wrth ddeall ystyr marwolaeth Iesu Grist trwy’r profiad o gael maddeuant ar ei sail, fe ddaw dyn i sylweddoli hefyd peth mor ysgeler yw pechod yng ngolwg Duw. Mae Duw wrth estyn i ni faddeuant trwy chwys a gwaed ei annwyl Fab yn rhoddi inni hefyd yn yr un lle edifeirwch am ein pechod.

Llef ddrylliedig gref y croesbren
Sydd yn abl i faddau ’mai:
Llef y croesbren a all hefyd
Wneuthur im edifarhau.

***Emyr Roberts***